

# ***HWYLU***

*Cymorth er mwyn Byw'n Annibynnol*

---

## **System Uwchraddedig ar gyfer Addasu Cartrefi**

---

Canllawiau ar gyfer yr holl ddarparwyr sy'n addasu  
cartrefi

Chwefror 2017

## Cyflwyniad

Mae rhaglen *HWYLUSO – Cymorth er mwyn Byw'n Annibynnol* yn deillio o drafodaeth â'r sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â helpu pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl. Mae'n system uwchraddedig ar gyfer rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i addasu eu cartrefi i'r rheini sydd ei angen.

Mae HWYLUSO yn dod â'r trefniadau presennol ar gyfer addasu cartrefi at ei gilydd drwy ddatblygu'r amrywiaeth bresennol o raglenni a ffrydiau cyllido unigol. Mae'r rhaglen yn elwa ar fanteision nifer o raglenni unigol, ac yn eu defnyddio mewn ffordd a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl gael help drwy gyfrwng prosesau symlach ar gyfer addasu cartrefi. Bwriedir i'r rhaglen sicrhau'r un addasiadau syml a gwasanaeth wedi'i safoni i unigolion heb ystyried y math o ddeiliadaeth sydd ganddynt.

Mae'n gwneud hynny drwy ymdrin â'r cysyniad o wneud addasiadau i'r cartref ar gyfer y defnyddiwr/cleient yn ôl tri chategori bras - sef bach, canolig a mawr. Er gwaethaf y math o ddeiliadaeth sydd gan ddefnyddiwr neu sut y mae'r addasiadau'n cael eu hariannu, bydd y broses sylfaenol y caiff defnyddwyr brofiad ohoni i gael yr addasiadau sydd eu hangen arnynt yn dilyn un o'r categorïau hyn.

Bydd y system uwchraddedig hon yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o bobl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen rhoi cyngor a chymorth weithiau i helpu pobl i ddod o hyd i gartref addas arall sy'n diwallu eu hanghenion. Pan fydd addasiad yn cael ei wneud i gartref sy'n eiddo preifat, efallai y bydd angen i rai pobl gyfrannu at y gost, os bydd trefniadau ar gyfer prawf modd eisoes ar waith. Ond, bydd y system uwchraddedig yn ei gwneud yn haws i bawb gael y cyngor, yr wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer awdurdodau lleol i gyflwyno'r system, a fydd yn cryfhau'r cymorth sydd ar gael i bobl mewn angen. Yn ychwanegol, caiff trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd am berfformiad eu datblygu, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei chasglu ar y ffordd y mae'r system yn gweithredu.

Bydd rhoi'r system uwchraddedig mewn grym yn amodol ar gynnal gwerthusiad, a chaiff y system ei monitro'n agos hefyd gan yr holl randdeiliaid allweddol - bydd hynny'n sail i ddatblygiadau a gwelliannau pellach.

## Cefndir

Mae addasiadau i gartrefi pobl yn gwella ansawdd eu bywyd a hefyd yn helpu i leihau'r pwysau y gellir eu hosgoi ar y Gwasanaeth Iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Gall addasiadau syml, fel canllaw cydio, sy'n costio fawr ddim, atal cwmpadau ac anafiadau difrifol a chostau sylweddol, er enghraifft y £28,000 fwy neu lai y mae'n eu costio i drin toriad yn y glun. Mae anafiadau o'r fath hefyd yn ffactor pwysig o ran penderfyniad i symud i ofal preswyl.

Mae addasiadau i gartrefi nid yn unig yn atal derbyniadau brys i'r ysbyty neu rai na threfnwyd ymlaen llaw, ond mae hefyd yn hwyluso rhyddhau cleifion o'r

ysbyty yn gynt. Mae gwneud y newidiadau sydd eu hangen i amgylchedd byw rywun, er enghraifft lifft risiau neu gawod y gellir cerdded i mewn iddi, yn galluogi pobl i fyw mor ddiogel ac annibynnol ag sy'n bosibl.

Mae mwy na £50 miliwn yn cael eu gwario bob blwyddyn ar addasu cartrefi pobl gan Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a Llywodraeth Cymru ei hunan. Mae'r system bresennol yn cynnig llawer o gymorth i bobl. Er enghraifft, mewn blwyddyn nodweddiadol, mae 4,500 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael eu cymeradwyo gan Awdurdodau Lleol, a rhyw 6,000 o denantiaid i Gymdeithasau Tai yn cael addasiad i'w cartref. Mae mwy na 17,000 o bobl yn cael eu helpu gan Raglen Addasiadau Brys ac mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio'n helpu mwy na 30,000 o bobl.

Er hynny, mae lle i wella, ac angen gwella, o hyd. Prif sylw'r system uwchraddedig fydd y sawl sydd angen cymorth, a sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei roi cyn gynted ag y bo modd. Bydd yr amrywiol raglenni a chyllidebau sy'n cael eu gweithredu gan weithredwyr gwahanol yn y cefndir fwy neu lai.

## **Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol**

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r ddarpariaeth o addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol yng Nghymru. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2015. Un o'i brif nodau oedd asesu pa mor ymarferol fyddai'r opsiynau i newid y trefniadau presennol ar gyfer addasu cartrefi.

Tynnodd sylw at system dameidiog o ddarparu gwasanaethau sy'n cynnwys sawl ffordd o ddefnyddio'r gwasanaethau ac amrywiaeth o ffrydiau cyllido. Mae hynny'n arwain at system gymhleth sy'n anodd ei deall, yn ogystal â meini prawf cymhwystra anghyson.

Er bod amseroedd dyfarnu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella yn ddiweddar, gwelwyd bod oedi annerbyniol yn rhan o'r system o hyd. Mae nifer o randdeiliaid o'r farn bod profion modd yn cymryd gormod o amser, yn annheg o'u cymharu â ffrydiau cyllido eraill, ac nad ydynt o reidrwydd yn gost-ffeithiol. Yn ychwanegol, cafwyd bod diffyg cysondeb o ran yr hyn sy'n cael ei ddosbarthu'n fân addasiadau neu'n addasiadau mawr, a darparwyr gwahanol yn cynnig gwahanol drothwyon. Er bod nifer o ddarparwyr wedi datblygu system sy'n cyflymu'r broses ar gyfer addasiadau bach, mae yna duedd i rai addasiadau bach gael eu cyflawni o hyd drwy broses y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Mae hynny'n golygu eu bod yn rhwym wrth brawf modd ac oedi o fath arall y gellir ei osgoi o bosibl, fel asesiadau Therapydd Galwedigaethol.

Cafwyd hefyd fod diffyg cysondeb o ran y ffordd yr oedd perfformiad neu ganlyniadau ar gyfer cyflawni addasiadau'n cael eu mesur.

Roedd yr adolygiad yn argymhell y dylid datblygu dull tair haen ar gyfer y ffordd y mae addasiadau'n cael eu gweithredu. Amlinellodd yn fras yr hyn y gellid ei ddisgwyl, a oedd yn cynnwys cyflymu'r broses ar gyfer yr addasiadau lleiaf fel bod unrhyw oedi'n cael ei osgoi.

Argymhellodd ddatblygu system unigol o fesur y ffordd yr oedd darparwyr yn gweithredu'r broses o wneud addasiadau ar sail system dair haen.

Roedd hefyd yn argymhell y dylai'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau gael ei symleiddio, ac y dylai'r modd o gael hyd i gyngor ar sut i gael addasiad fod yn fwy amlwg.

Cafodd grŵp gweithredu ei sefydlu i edrych ar y ffordd orau o weithredu'r argymhellion hyn o fewn y fframweithiau ariannol a chyfreithiol sydd eisoes yn bodoli, gan gydweithio â darparwyr i ddatblygu'r dull gorau o weithio.

Mae'r rhaglen Hwyluso yn cyflwyno ffordd gyson newydd o gategoreiddio addasiadau a fydd yn helpu i sicrhau'r dull cyson hwnnw ar draws gwahanol fathau o ddeiliadaethau a ffrydiau cyllido, ac yn cynnig strwythur i fesur canlyniadau a pherfformiad mewn ffordd ystyrlon.

Fel canlyniad, bydd gofyn i ddarparwyr barhau i weithredu eu gwasanaeth addasu fel o'r blaen, ond gan nodi i ba un o'r tri chategori y mae pob addasiad yn perthyn a defnyddio'r meini prawf safonol ar gyfer y categori hwnnw, ac wedyn adrodd am hynny gan ddefnyddio'r ffurflen fonitro safonol. Bydd y dull gweithredu ar gyfer pob categori yn helpu i uno'r ffordd y mae addasiadau'n cael eu darparu i'r rhai hynny sydd eu hangen.

## Nodau

Nodau'r system uwchraddedig yw:

- Symleiddio a safoni mecanweithiau cymeradwyo a'r broses o sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud cyn gynted ag y mo modd.
- Codi ymwybyddiaeth yn sylweddol ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr o'r cymorth sydd ar gael a sut i gael hyd iddo.
- Gweithredu un system o dan enw brand unigol, sef "*HWYLUSO – Cymorth ar gyfer Byw'n Annibynnol*" a sicrhau lefel uchel o ymwybyddiaeth gyhoeddus ac ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Cael gwared ar y gost a'r oedi sy'n gysylltiedig â chynnal prawf modd, pan fydd y gost yn anghymesur o'i chymharu â gwerth yr addasiad.
- Cael gwared ar y gost a'r oedi sy'n gysylltiedig â chynnal asesiadau gan Therapydd Galwedigaethol, pan nad yw natur y gwaith addasu yn deilwng o'r angen i gynnal asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.
- Mesur effeithiolrwydd y system newydd ac elfennau ohoni drwy adrodd am berfformiad yn well ac mewn modd mwy cynhwysfawr a thrwy ddangosyddion perfformiad.

## **Pwy fydd yn cael ei helpu a beth y gall rhywun ei ddisgwyl?**

Bwriedir i'r system helpu pawb sydd angen eu helpu pa un ai ydynt yn berchen ar gartref eu hunain neu'n rhentu cartref. Bydd yn cynnig mwy o gymorth i fwy o bobl ac yn ei ddarparu cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i'r angen gael ei nodi. Gall yr unigolion hynny sydd angen cymorth i addasu eu cartrefi, gan gynnwys eu teuluoedd, ddisgwyl y canlynol:

- (i) Cymorth prydlon a'r addasiadau'n cael eu gwneud o fewn targedau gwell ar gyfer amseroedd cyflawni, os yw'n bosibl.
- (ii) Gwasanaeth di-dor sy'n cynnig cymorth ni waeth beth fo'r pwynt cyswllt cyntaf neu'r angen a nodwyd.

Caiff unigolion eu sicrhau hefyd fod ymrwymiad i gyflawni lefelau uchel o fodlonrwydd am y gwasanaethau gan y rheini sy'n cael eu helpu drwy'r system. Caiff y lefelau hynny eu mesur a'u hadrodd gan y sefydliadau sy'n rhan o'r system.

## **Beth y gellir ei ddisgwyl o ran y system uwchraddedig?**

Mae nifer o egwyddorion allweddol yn sail i'r system, gan roi'r pwyslais ar yr unigolyn sydd angen help, a'i deulu. Mae'r sawl sy'n cyflawni'r gwaith addasu neu sy'n talu amdano yn eilradd i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a phan fydd ei angen arnynt.

- System syml a chlr o gael help, sy'n cynnwys tair lefel fras o gymorth.
- Cymorth ni waeth beth fo oedran yr unigolyn a'r math o ddeiliadaeth
- Yn cwmpasu'r holl raglenni ar gyfer addasiadau, beth bynnag yw ffynhonnell y cyllid.
- Ffordd ddarvoudus o weithio sy'n seiliedig ar anghenion a nodir ar y cyd â'r unigolyn sydd angen cymorth, defnydd effeithiol o addasiadau, a gwneud y defnydd gorau posibl o gyllid cyhoeddus ac adnoddau staffio.
- Blaenoriaeth benodol yw gwneud yr addasiadau sydd eu hangen i alluogi pobl i adael yr ysbyty cyn gynted ag y bo modd i ddychwelyd i'w cartrefi a byw'n ddiogel ac mor annibynnol ag sy'n bosibl.
- Rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer yr holl sefydliadau a staff sy'n darparu gwasanaethau.
- Ffordd o weithio sydd wedi'i safoni er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd da a chyson ym mhob maes, ond sydd hefyd yn hyblyg i ymateb yn effeithiol pan fydd angen.

- Un set o wybodaeth am fonitro perfformiad, gan gynnwys adborth gan dderbynwyr er mwyn nodi cyfleoedd i wella'r gwasanaeth(au) ymhellach.
- Hunaniaeth well a chryfach (un system – un brand).
- Pob sefydliad yn gyfrifol amdani, ac ymrwymiad gan bob un i chwarae eu rhan i'r eithaf wrth helpu i ddiwallu anghenion pobl.

## **I ba raddau y mae'r system uwchraddedig yn gydnaws â gwasanaethau a datblygiadau eraill?**

Yn nodweddiadol, mae gwneud addasiadau i gartrefi pobl wedi'i ystyried i fod yn fater 'tai'. Ond mewn gwirionedd mae'n fater sy'n elfen hanfodol o system gyfan y gwasanaethau a'r cymorth cyhoeddus sy'n bodoli i ddarparu pa gymorth bynnag sydd ei angen ar bobl ar wahanol adegau yn ystod eu bywyd. Mae hynny'n cynnwys iechyd, gofal ac ansawdd bywyd yn gyffredinol.

Mae'r system uwchraddedig wedi'i sefydlu'n gadarn fel system sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus ehangach sy'n sicrhau addasiadau amserol a fydd yn cael eu defnyddio fel a ganlyn:

- Helpu pobl i fyw'n ddiogel yn eu cartref eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl ac mor annibynnol ag sy'n bosibl.
- Atal pobl rhag cael triniaeth na threfnwyd ymlaen llaw mewn ysbyty fel canlyniad i ddamwain.
- Hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty cyn gynted ag y bo modd ac osgoi'r angen am fynd yn ôl i'r ysbyty drwy sicrhau nad yw materion diogelwch a llety anaddas yn achosi unrhyw oedi.
- Lleihau lefel y cymorth ar gyfer gofal cymdeithasol sydd ei angen a/neu'r angen i fynd i ofal preswyl.

Mae dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar yn nodweddion allweddol o'r system uwchraddedig ac yn rhan o'r egwyddor sy'n sylfaen iddi. Bwriedir iddi gadw pobl allan o'r ysbyty, er enghraifft atal pobl rhag cael eu trin mewn ysbyty fel canlyniad i gwympto gartref. Pan fydd pobl wedi'u derbyn i'r ysbyty, bwriedir iddi helpu hwyluso eu bod yn cael eu rhyddhau'n gynharach. Mae hynny yn ei dro yn rhyddhau gwelyau i bobl eraill ac yn helpu i leihau neu atal oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae hefyd yn lleihau'r galwadau ar y Gwasanaeth Iechyd yn gyffredinol.

Mae'r system yn cefnogi bwriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sef i sicrhau bod gofal a chymorth ar gael i ddiwallu anghenion pobl, gan roi sylw penodol i ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar, er

mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol. Mae hefyd yn gofyn bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac â phartneriaid eraill i gynllunio a sicrhau bod y gwasanaethau integredig, gofal a chymorth a ddarperir yn diwallu anghenion pobl yn eu hardal yn y ffordd orau.

Mae ymwybyddiaeth am y system newydd ymhlith y Trydydd Sector, maes tai, gwasanaethau cymdeithasol, ac ymhlith gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ym maes iechyd gan gynnwys y cyhoedd, yn bwysig iawn i nodi'r bobl mewn angen ac/neu mewn perygl, a diwallu'r anghenion hynny.

Bydd y system yn cyfrannu at ddatblygu Polisiâu Tai Hygyrch ymhellach drwy wneud addasiadau i gartrefi presennol pobl, os yw'n bosibl ac yn gost-effeithiol i wneud hynny. Mae'n cynnig proses symlach o bennu'r modd mwyaf priodol o helpu rhywun sydd angen tŷ wedi'i addasu. Mewn rhai achosion, gallai hynny olygu bod angen darparu llety arall gan ddefnyddio Cofrestri Tai Hygyrch Awdurdodau Lleol yn unol â gwella polisiâu lleol i gefnogi'r gwaith o ddyrannu tai cymdeithasol wedi'u haddasu i bobl sydd eu hangen.

Bydd rôl gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ar draws yr amrediad o wasanaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys sefydliadau'r Trydydd Sector, yn cael ei hegluro fel rhan o'r broses weithredu. Bydd hynny hefyd yn mynd yn sail i'r angen am wybodaeth a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r system uwchraddedig yn cyfuno'n dda â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cyfrannu atynt.

### Cymru lewyrchus

Mae mwy na £50 miliwn fel arfer yn cael eu buddsoddi bob blwyddyn mewn gwaith addasu cartrefi. Caiff addasiadau eu gwneud gan gwmnïau mawr a bach, a'r ddau yn defnyddio crefftwyr lleol yn aml. Mae'r cyllid yn mynd i'r economi leol lle y mae cwmnïau adeiladu bach yn chwarae rhan hanfodol. Gan fod y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith uniongyrchol, mae'n hybu'r gadwyn gyflenwi leol, gan gefnogi gweithwyr presennol cwmnïau, yn ogystal â gweithwyr dan hyfforddiant a phrentisiaid, sydd yn eu tro yn cynorthwyo'r economïau lleol.

### Cymru iachach

Mae gwneud addasiadau yn helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl ac mor annibynnol ag sy'n bosibl, gan wella'u diogelwch ac ansawdd bywyd yn gyffredinol. Fel rhaglen ataliol, mae'r system yn helpu i leihau'r galw ar y Gwasanaeth Iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, sydd yn ei dro yn helpu i ryddhau gwelyau, a lleihau'r oedi, er mwyn trin pobl eraill. Gall hefyd ganiatáu i unigolion ymgymryd â mwy o weithgareddau a chael mwy o reolaeth o'u bywyd, sy'n gallu helpu i wella iechyd a lles corfforol a meddyliol.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

Mae gwneud addasiadau i gartrefi yn helpu pobl sydd am ryw reswm neu'i gilydd yn agored i niwed, a grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae hynny'n cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau a phroblemau iechyd, a hefyd bobl eraill y mae angen eu hatal rhag mynd yn anabl, er enghraifft drwy anafiadau difrifol fel canlyniad i gwmpo. Bydd y rhaglen yn helpu pobl sy'n iau nag oedran ymddeol os bydd anabledd neu broblem iechyd yn golygu bod angen addasu eu cartref.

## **Sut y caiff pobl eu helpu?**

Mae'r system wedi'i chynllunio i fod yn syml o ran sut y caiff addasiadau o wahanol fathau eu cyflawni.

1. Nodi'r angen a gofyn am gymorth
2. Cyngor a gwybodaeth
3. Cadarnhau'r angen/anghenion
4. Cynllunio'r camau gweithredu a chymryd camau gweithredu
5. Casglu gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys adborth gan yr unigolyn

Bydd tri chategori bras o gymorth yn unig:

- (i) Bach.
- (ii) Canolig
- (iii) Mawr

### **Addasiadau bach**

Mae'r addasiadau sy'n dod o dan y categori "bach" yn cynnwys, er enghraifft, gosod canllawiau cydio. Cânt eu nodweddu gan:

- Ymateb cyflym, a tharged amser byr ar gyfer cyflawni'r gwaith.
- Nid yw'n ofynnol i gael cymorth gan Therapydd Galwedigaethol (ond mae'n bosibl y gallai un fod wedi cyfeirio'r cais, ac/neu wedi bod yn rhan o'r broses o nodi'r angen).
- Ffordd o weithio sy'n dilyn canllawiau ar gyfer mân addasiadau heb oedi, a gynhyrchwyd gan Goleg y Therapyddion Galwedigaethol.
- Ni chaiff prawf modd ei ddefnyddio
- I roi syniad bras, disgwylir i'r rhain gostio hyd at £1,000.

### **Addasiadau canolig**

Bydd y categori "canolig" yn cynnwys addasiadau fel gosod cawodydd y gellir cerdded i mewn iddynt, lifftiau grisiau a rampiau. Mewn rhai achosion, gallai'r categori hwn gynnwys pecyn o addasiadau sy'n cynnwys yr eitemau hyn yn ogystal ag eitemau bychan fel canllawiau cydio. Cânt eu nodweddu gan:



- Sicrhau bod y broses yn cael eu cyflymu.
- Defnyddio cyfeirwyr medrus ac aseswyr y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys goruchwylio unrhyw staff nad ydynt yn gweithio ym maes Therapi Galwedigaethol y mae'n ofynnol iddynt wneud dyfarniad.
- Mae'n bosibl na fydd angen prawf modd nac asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.
- I roi syniad bras, disgwylir i'r rhain gostio rhwng £1,001 a £10,000.

### **Addasiadau mawr**

Bydd y categori “mawr” yn cynnwys addasiadau sy'n golygu bod angen gwneud newidiadau strwythurol mawr i eiddo ac/neu i unrhyw estyniadau ar yr eiddo. Cânt eu nodweddu gan:

- Gweithredu'n brydlon ar bob cam, ond gan gydnabod y gall addasiadau o'r fath gymryd amser, ac mae yna risgiau mewn cysylltiad â rhuthro heb ystyried, asesu a chynllunio'n ofalus.
- Asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.
- Sicrhau cymorth arbenigol arall pan fydd angen, gan gynnwys cyllid, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau technegol penodol.
- Ffordd o feddwl sy'n ystyried “system gyfan”, a fydd, mewn rhai achosion, yn cynnwys ystyried llety arall.
- Bydd yr addasiadau hyn yn costio dros £10,000.

Bydd unigolion sy'n rhentu eu cartref gan Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Dai yn cael eu heithrio o'r prawf modd ar gyfer costau'r addasiadau. Bydd cynnal prawf modd, sy'n ofyniad statudol ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl, yn parhau i fod yn berthnasol i bobl sy'n berchen ar eu cartref eu hunain. Mae hynny'n adlewyrchu'r angen i sicrhau bod y rhai hynny sy'n gallu fforddio cyfrannu at gost y gwaith yn gwneud hynny. Ni fydd cynnal prawf modd yn berthnasol i addasiadau sy'n dod o dan y categori “bach”, ac mae'n bosibl na fydd yn berthnasol i'r categori “canolig” ychwaith.

### **Canlyniadau**

Prif ganlyniadau'r system uwchraddedig fydd y canlynol:

- (i) Ansawdd bywyd gwell
- (ii) Lleihau'r perygl o gwympo
- (iii) Llai o alw ar wasanaethau iechedd a chymdeithasol
- (iv) Llety sy'n briodol i bobl

### **Mesur effeithiolrwydd y system**

Gwerthuso

Caiff gwerthusiad annibynnol o'r system uwchraddedig ei gomisiynu. Bydd hwnnw'n ategu ac yn defnyddio casgliad gwell o lawer o ddata ar yr addasiadau a wneir a'u heffaith, gan gynnwys adborth ar fodlonrwydd cwsmeriaid sy'n defnyddio'r cymorth.

### Monitro

Caiff data cyffredin eu casglu gan ddarparwyr er gwaethaf y rhaglen neu'r cyllid y maent yn eu defnyddio i gyflawni'r addasiad(au). Rhaid cwblhau ffurflen fonitro ar gyfer pob pecyn addasu a ddarperir. Bydd y dull hwn o fesur perfformiad ac adrodd am berfformiad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthuso'r system, ac unrhyw ddatblygiadau neu waith mireinio pellach sydd eu hangen i wella'r system ar gyfer y rhai hynny sydd angen cymorth.